OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1886

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2002

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*") yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer ardal iechyd porthladd a gyfansoddwyd o dan adran 2(4) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**1**) ac, mewn perthynas ag awdurdod iechyd porthladd ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson (p'un a ydyw yn swyddog yn yr awdurdod ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod i weithredu mewn materion sy'n deillio o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "Cyfarwyddeb 85/591/EEC" ("*Directive 85/591/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 85/591/EEC sy'n ymwneud â chyflwyno dulliau'r Gymuned o samplo a dadansoddi ar gyfer monitro bwydydd a fwriadwyd i bobl eu bwyta(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 93/99/EEC" ("*Directive 93/99/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 93/99/EEC ar y math o fesurau ychwanegol sy'n ymwneud â rheolaeth swyddogol bwydydd(**3**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol y lefelau ar gyfer halogion penodedig mewn bwydydd(**4**)) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/27/EC(**5**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/22/EEC" ("*Directive 2001/22/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/22/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol lefelau plwm, cadmiwm, mercwri a 3-MPCD mewn bwydydd(**6**)), fel y cawsant eu cywiro gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/873/EC(**7**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/26/EC" ("*Directive 2002/26/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/26/EC sy'n gosod y dulliau samplo a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol y lefelau o Ochratoxin A mewn bwydydd(**8**);

ystyr "Cytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area Agreement*") yw Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992 fel y cafodd ei addasu gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n nodi'r lefelau uchaf ar gyfer halogion penodedig mewn bwydydd(**9**) fel y'i

(**1**) 1984 (p.22).
(**2**) OJ Rhif L372, 31.12.85, p.50.
(**3**) OJ Rhif L290, 24.11.93, p.14.
(**4**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, p.93.
(**5**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44.
(**6**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, p.14.
(**7**) OJ Rhif L325, 8.12.2001, p.34.
(**8**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.38.)
(**9**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, p.1.

diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 221/2002(**10**), Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 257/2002(**11**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 472/2002(**12**)) fel y cafodd ei gywiro gan gywiriad a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2002(**13**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002(**14**)) Fel y'i Cywiriwyd gan gorigendum a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2002(**15**);

ystyr "Rheoliad 2375/2001/EC" ("*Regulation 2375/2001/EC*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2375/2001 sy'n diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001 sy'n nodi'r lefelau uchaf ar gyfer rhai halogion penodol mewn bwydydd(**16**); ac

ystyr "Talaith Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area State*") yw Talaith sy'n Gytundebwr i Gytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd;

(2) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rheoliad y Comisiwn.

(**10**) OJ Rhif L37, 7.2.2002, p.4.
(**11**) OJ Rhif L41, 13.2.2002, p.12.
(**12**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t. 18.
(**13**) OJ Rhif L80, 23.3.2002, t.42.
(**14**) OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5.
(**15**) OJ Rhif L155, 14.06.2002, t.63.
(**16**) OJ Rhif L321, 6.12.2001, t.1.